

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2000

Amser: 9.00am hyd 12.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn
bresennol:** **Aelodau**

Kirsty Williams
(Cadeirydd) Aberhonddu a Sir Faesyfed

Geraint Davies Rhondda

Jane Hutt (YC) Bro Morgannwg

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Dai Lloyd Gorllewin De Cymru

David Melding Canol De Cymru

Lynne Neagle Tor-faen

Alun Pugh Gorllewin Clwyd

Swyddogion

Dr Ruth Hall Prif Swyddog Meddygol

Peter Gregory Cyfarwyddwr yr NHS yng Nghymru

Sarah Beaver Is-adran Cyllid yr NHS

Helen Thomas Cyfarwyddwr y Grp Polisi Cymdeithasol

Graham Williams	Prif Arolygydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Chris Burdett	Is-adran Plant a Theuluoedd
Yn Bresennol	Cyd-Gadeirydd Is-Grp Rhyngwynebau Iechyd
Hugh Gardner	
Dr Chris Jones	Grp Datblygu Strategaeth Amserau Aros
Denis Jessopp	Cadeirydd Grp Datblygu Strategaeth Amserau Aros
Debbie Morgan	Is-Grp Cynllunio Cymhwyster
Jane Westlake	Clerc
Claire Morris	Is-Glerc

Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Helen Mary Jones.

1.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r angen, dan Orchymyn Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw ddiddordebau cyn cymryd rhan yn y trafodion. Datganodd Dai Lloyd ddiddordeb fel meddyg teulu.

Eitem 2: 2001-2002 Blaenoriaethau'r Gyllideb

Papur: HSS-15-00(p.1)

2.1 Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y materion allweddol ar gyfer y drefn cynllunio cyllidebau 2001-2002.

2.2 Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan yr aelodau:

- Roedd angen targedu'r adnoddau i'r cymunedau tlotaf, mwyaf difreintiedig os am wneud unrhyw gynnydd wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.
- Roedd hybu iechyd yn bwysig ond ni ddylai fod ar draul darparu gofal iechyd. Fodd bynnag, roedd yn cynnig potensial enfawr o ran enillion ym maes iechyd a dylid cyflwyno achos cryf am arian ychwanegol.
- Croesawyd darpariaeth adnoddau ychwanegol i'r gwasanaethau cymdeithasol a gobeithiwyd y

byddai hyn yn bosibl eto eleni.

- Roedd angen parhaus i foderneiddio ystâd yr NHS, yn arbennig llawer o'r ysbytai salwch meddyliol.
- Dylid cwblhau'r rhaglen adsefydlu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu cyn gynted â phosibl.
- Byddai gan y Strategaeth Adnoddau Dynol (HR) rôl bwysig i'w chyflawni wrth fynd i'r afael â phrinder staff a oedd yn lleihau cymhwyster o fewn yr NHS ar hyn o bryd.
- Mae'n rhaid i'r broses o sefydlu'r Comisiynydd Plant gael ei chadw'n uchel ar yr agenda.
- Roedd y modd y sefydlwyd Grwpiau Iechyd Lleol (LHGs) yng Nghymru yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i ddatblygu cydweithio â llywodraethau lleol.
- Roedd angen mwy o bwyslais ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (ICT). Os oedd rôl gofal sylfaenol i ddatblygu yna roedd angen strategaeth a fyddai'n sicrhau bod y systemau yn cydweddu.
- Gallai ymateb y llywodraeth i adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar ofal hir dymor i'r henoed fod â chryn oblygiadau ar gyfer darparu gofal cymdeithasol.
- Byddai cofrestru, rheoleiddio a hyfforddi staff ym maes gofal cymdeithasol, yn unol â'r Mesur Safonau Gofal, yn golygu cynnydd anochel mewn costau.
- Rhaglenni Gwella Iechyd (HIPs) oedd y cyfrwng i gynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a byddai angen i awdurdodau iechyd sicrhau bod eu HIPs yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol.
- I sicrhau bod y £25m ychwanegol yn cael ei dargedu i flaenoriaethau allweddol, roedd yn ofynnol i'r awdurdodau iechyd gyflwyno cynlluniau gwariant.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad:

- Yr unig ffordd i dargedu adnoddau i'r awdurdodau lleol oedd drwy grantiau arbennig a fyddai'n sicrhau bod cydflaenoriaethau yn cael eu cyflwyno ar lefel leol.
- Byddai'r arolwg presennol o fformiwla dyrannu adnoddau'r NHS yn mynd i'r afael â mater amddifadedd cymdeithasol economaidd.
- Dylai *Cymunedau yn Gyntaf* fod â phwyslais iechyd cryf ond rhaglen leol wedi'i harwain gan y gymuned ydoedd yn hytrach na menter llywodraeth leol.

2.3 Cytunwyd y dylid ymestyn blaenoriaethau'r Pwyllgor (Atodiad A) i gynnwys:

- gwasanaethau ar gyfer yr henoed;
- clefyd coronaidd y galon;
- gwasanaethau canser;
- gwasanaethau ambiwlans;
- datblygiadau HR;
- datblygiadau ICT.

Gweithredu

2.4 Byddai'r Cadeirydd yn paratoi ymateb ar gyfer yr Ysgrifennydd Cynulliad yn amlinellu sylwadau'r Pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb a hefyd yn pwysleisio'r ffaith y byddai disgwyl i'r aelodau gadw'r holl adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd eleni. Byddai copi yn cael ei ddsbarthu i aelodau iddynt roi eu sylwadau arno cyn ei anfon.

2.5 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn mynegi barn y Pwyllgor ar barhad yr arian ar gyfer y sector gwirfoddol; yr angen i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn gwario lefel yr adnoddau a nodwyd yn y setliad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar wasanaethau cymdeithasol; a phwysigrwydd grantiau adnewyddu cartrefi o ran codi safon tai ac iechyd tenantiaid.

Eitem 3: Cosbi Plant yn Gorfforol – Canlyniad Ymgynghori:

Papur: HSS-15-00(p.2)

3.1 Trafododd y Pwyllgor y ddogfen ymgynghori a'i hymatebion, a chytuno:

- y dylid ei gwneud yn anghyfreithlon i ddefnyddio offer i gosbi plant;
- y dylid ei gwneud yn anghyfreithlon i gosbi'n gorfforol mewn modd sy'n peri niwed i'r pen;
- y dylai "ceryddu rhesymol" fod yn amddiffyniad a ganiateir ar gyfer y rheini a gyhuddwyd o ymosodiad cyffredin yn unig;
- na ddylid newid y broses i'r rheini sy'n gallu hawlio amddiffyniad o geryddu rhesymol ar hyn o bryd, h.y. pawb sy'n gweithredu ar ran rhieni wrth ofalu am blant (ac eithrio sefyllfaoedd lle y gwaharddwyd cosbi'n gorfforol);
- bod angen cydbwysedd rhwng hawliau'r plentyn, pwysau ar rieni a'r hyn y gellid ei wneud o fewn y gyfraith.
- bod gwaith Cychwyn Cadarn wrth roi cymorth a sgiliau magu plant ar oedran iau yn bwysig iawn.

3.2 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cynulliad yn amlinellu barn y Pwyllgor.

Eitem 4: Tasglu ar Bwysau Brys gan gynnwys Gohirio Rhyddhau

Papur: HSS-15-00(p. 3)

4.1 Amlinellodd yr Ysgrifennydd Cynulliad gylch gorchwyl, casgliadau ac argymhellion y tasglu.

4.2 Gwnaeth aelodau'r Tasglu ac is-grwpiau gyflwyniad byr o'r materion allweddol:

Mentrau Iechyd Cyhoeddus a anelwyd at Atal Salwch

- Roedd ymgyrch fawr ar fin dechrau i gyd-drefnu nifer o fentrau presennol y Cynulliad a hyrwyddo ymagwedd partneriaeth. Byddai'n dechrau ag ymgyrch i gynyddu niferoedd y bobl sy'n cael brechiad y 'ffliw' a byddai'n cynnwys cadw'n gynnes yn ystod y gaeaf, maeth a diogelwch.
- Roedd angen systemau gwell i reoli'r rhaglen brechiadau 'ffliw', yn arbennig mewn

meddygfeydd teulu er mwyn adnabod y rheini a fyddai'n elwa.

- Roedd project peilot yn cael ei redeg, mewn partneriaeth ag Asiantaeth Ieuenctid Cymru, lle roedd pobl ifanc yn cynorthwyo'r henoed yn y gymuned, h.y. siopa, ymweld, ac ati.

Gweithio ar y Cyd

- Roedd gan LHGs rôl hanfodol ac roeddent mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r agenda waith ar y cyd.
- Roedd angen ymagwedd ddiwygiedig tuag at y sector annibynnol gan fod ganddynt y gallu i ddarparu ystod eang o wasanaethau ond a gâi ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel y cam eithaf.
- Roedd llwybrau gofal yn ymagwedd a ganolwyd ar y claf a oedd yn helpu i gynllunio gwaith ar y cyd. Ar hyn o bryd, roeddent wedi eu cyfyngu'n bennaf i anghenion iechyd a dylid eu hymestyn i gynnwys gofal cymdeithasol.
- Roedd angen diffiniad aml-asiantaethol o "ohirio rhyddhau".
- Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i nodi a dysgu oddi wrth arfer da.
- Roedd angen ymagwedd systemau cyfan i reoli'r gwasanaeth y tu allan i oriau swyddfa, gyda mewnbwn mwy oddi wrth y sector gofal cymdeithasol.

Gwelliannau mewn Gofal Eilaidd

- Mae'n rhaid cynyddu nifer y gwelyau meddygol os oedd y targedau amserau aros i'w cyrraedd.
- Roedd mentrau peilot yn cynnwys gweithio 7 diwrnod ac arferion gwaith dyfeisgar yn cael eu hystyried, yn eu plith meddygon teulu yn gweithio yn yr Uned Damweiniau ac Achosion Brys; gweithio 7 diwrnod mewn Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, Fferylleg, Radioleg a Phatholeg er mwyn cyflymu'r broses o wneud profion, asesu a thriniaeth; Ffisiotherapyddion wedi'u lleoli mewn meddygfeydd yn darparu adsefydlu wedi ei leoli yn y gymuned.
- Byddai gwahoddiad yn cael ei estyn i'r awdurdodau iechyd i wneud cynnig i gymryd rhan yn y projectau hyn a hefyd i roi awgrymiadau am gynlluniau peilot ychwanegol.
- Roedd yn bosibl i 20% o staff ychwanegol a oedd yn gweithio yn yr NHS yng Nghymru ymgymryd â hyfforddiant o ganlyniad i'r dyraniad ychwanegol a gyhoeddwyd ar 13 Mehefin.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol gan yr aelodau:

- Roedd y gwaith o gyfrifo lefel deiliadaeth Cymru gyfan yn parhau ond yn ystod y pum mlynedd diwethaf roedd yn uwch na'r lefel optimwm, sef 85%, weithiau yn cyrraedd cymaint â 98%.
- Roedd angen cynnwys NHS Direct mewn unrhyw ystyriaeth o weithio y tu allan i oriau swyddfa.
- Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu adrannau 24 awr ond cydnabuwyd y gallai darpariaeth o'r fath fod yn fylchog.
- Roedd angen system cofnodi afiechydon cronig, a honno wedi ei safoni, er mwyn gallu targedu'r rheini sydd mewn angen. Ar hyn o bryd, gallai system yr awdurdod iechyd nodi grwpiau oedran ond nid cyflyrau meddygol. Roedd angen isadeiledd TG fwy trwyadl.
- Roedd meddygon teulu wrth wraidd darparu gwasanaethau ataliol.
- Roedd rhai staff proffesiynol hn yn awyddus i leihau eu horiau gwaith, ond roedd goblygiadau

i'w pensiynau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy.

- Câl arweiniad arfer da ar gydweithio effeithiol ei gynhyrchu gan ddefnyddio enghreifftiau gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol ledled Cymru. Byddai hyn yn mynd i'r afael â materion isadeiledd a gallu.
- Roedd angen cynllunio derbyniadau yn well. Ni fyddai unrhyw strategaeth yn esgor ar berfformiad amser aros da os oedd dan fygythiad oddi wrth bwysau derbyniadau brys. Nid mater o welyau ychwanegol yn unig ydoedd, ond pa mor dda y caent eu defnyddio a pha fesurau y gellid eu rhoi yn eu lle i osgoi derbyniadau ysbyty diangen a gallai'r sector gofal eilradd chwarae rôl fawr.
- Roedd awdurdodau lleol yn gweithredu o fewn terfynau arian parod ac yn nhermau gofal cymunedol roedd tanariannu affwysol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rhoddwyd tua un rhan o dair o gyllidebau'r gwasanaethau cymdeithasol i mewn i ofal pobl hn ac roedd hyn wedi cyfrannu at fynd i'r afael â'r dirywiad difrifol yn y gwasanaethau. Roedd darparu gofal digonol ar gyfer pobl yn y gymuned, a thrwy hynny gadw pobl rhag mynd i'r ysbyty, yn opsiwn fwy cost-effeithiol.

Daeth yr aelodau i'r casgliad:

- Bod cadw pobl yn gynnes, yr henoed yn arbennig, yn cynnig manteision iechyd enfawr a bod ymgyrch "Cadwch yn Iach a Chynnes" yn cael ei gweld fel menter bwysig.
- Bod angen newid ymagwedd er mwyn symud o wellhad i adsefydlu a chadw pobl yn brysur a'u bod yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Nad mater o ddiogelwch yn y cartref yn unig oedd atal damweiniau ond ei fod hefyd yn fater o ddarpariaeth gan wasanaethau'r awdurdod lleol, e.e. cynnal a chadw palmentydd, graeanu yn y gaeaf ac ati.

Cefnogodd y Pwyllgor yr ymgyrch a gynigiwyd

Gweithredu

4.3 Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol ynglŷn â phwysigrwydd rôl yr awdurdodau lleol o ran mynd i'r afael â phwysau brys ar ysbytai a'u hatal.

4.4 Byddai'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad llawn oddi wrth y Tasglu ym mis Medi.

Eitem 5: Cofnodion

5.1 Nid oedd cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 29 Mehefin 2000 ar gael felly caent eu cario ymlaen i'r mis Medi. Byddai'r aelodau yn derbyn copi ymlaen llaw cyn gynted ag y bo modd.

Eitem 6: Unrhyw Fater Arall

Addysg Feddygol Israddedigion

6.1 Cytunodd yr aelodau i ohirio'r ddadl ar ymestyn niferoedd israddedigion meddygol nes i'r cynigion cychwynnol gael eu derbyn yn yr hydref.

Blaen Raglenni Gwaith Pwyllgorau Eraill

6.2 Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgorau Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ac Addysg Cyn-16, Ysgolion a Dysgu Cynnar yn eu hysbysu o ddiddordeb y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu trafodaethau ar addysg feddygol ac addysg anghenion arbennig ac wedi derbyn cydnabyddiaeth oddi wrth y ddau Gadeirydd. Yn ogystal, byddai trefniadau yn cael eu gwneud i'r aelodau dderbyn y papurau perthnasol ac i gynrychiolydd o'r Pwyllgor gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ar addysg anghenion arbennig.

Ymestyn Categoriâu'r Bobl Sydd â Hawl i Brawf Llygaid Am Ddim

6.3 Câi adroddiad interim ar waith y Grp Ymgynghori Arbenigol ei gyflwyno i'r aelodau mewn ymateb i bryderon ynglŷn â math y prawf llygaid a fyddai, hwyrach, yn cael ei argymhell ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Cymhorthau Clywed Digidol

6.4 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cynulliad bapur gerbron yn amlinellu'r sefyllfa bresennol parthed cymhorthau clywed digidol. Mae copi wedi ei atodi.